

EDWARDS, WILLIAM (1851 - 1940), arolygwr ysgolion Ei Fawrhydi

Enw: William Edwards
Dyddiad geni: 1851
Dyddiad marw: 1940
Priod: Edwards (née Steinhil)
Rhiant: William Edwards
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arolygwr ysgolion Ei Fawrhydi
Maes gweithgaredd: Addysg; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Edgar William Jones

Ganwyd 22 Ionawr 1851 yn Ninbych ac addysgwyd ef mewn ysgol breifat yno, yn y Liverpool Institute, a Choleg y Frenhines, Rhydychen, lle y cafodd yrfa athrofaol ddisglair iawn. Enillodd anrhydedd yn y dosbarth cyntaf yn yr arholiadau yn yr ieithoedd clasurol a elwir 'Moderations' a 'Greats,' ac hefyd anrhydedd yn y dosbarth cyntaf mewn mathemateg. Etholwyd ef yn gymrawd o Goleg: Iesu, Rhydychen, ac yn 1925 anrhydeddwyd ef gan Brifysgol Cymru â'r radd fygedol o LL.D.

Bu yn athro mewn ysgol am ychydig amser; yna yn 1877 penodwyd Dr. Edwards yn arolygwr ysgolion Ei Fawrhydi, ac am 38 mlynedd cyflawnodd wasanaeth ffyddlon a gwerthfawr yn arolygu ac ysbrydoli addysg elfennol Morgannwg.

Yn 1915, pan gyrhaeddodd oed ymddiswyddo fel swyddog dan y Bwrdd Addysg, gwahoddwyd ef gan Fwrdd Canol Cymru dros Addysg Ganolraddol i ddilyn **Owen Owen** fel prif arolygwr. Bu yn ddigon hunan-ymwadol i dderbyn y swydd, ac felly aberthu'r hamdden a haeddai gymaint. Yr oedd ei wasanaeth i'r Bwrdd Canol mor werthfawr fel y'i cadwyd yn ei swydd hyd 1926. Dengys ei ysgrif 'The Settlement of Brittany' (*Cymm.*, xi, 61-101) pa fath ddefnydd y gallasai ei wneud o'r hamdden a aberthwyd i'w swyddi.

Yr oedd Dr. Edwards yn ddyn o gyfansoddiad haearnaidd, ac yn dal ac urddasol ei olwg. Parhâi i fyfyrion problemau addysg yn eiddgar, ac ysgrifennodd nifer o bamffledi a phapurau arnynt. Achosodd pamffledyn a ysgrifennodd yn 1929 ddi-ddordeb cyffredinol. Galwyd ef *Cynllun Newydd (A New Plan)*, ac ymdriniai a mater sydd bob amser yn creu diddordeb, sef 'Tystysgrif Ysgol.' 'Dylai tystysgrif ysgol,' awgrymai, 'gael i roddi i bob disgybl, ac arno wybodaeth am werth ei waith a gymerodd yn yr arholiad.'

Ar hyd ei breswyl ym Merthyr Tydfil cymerai ef a'i wraig (née Steinhil) ran brysur ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y dref a'r cylch. Bu farw 12 Chwefror 1940 ym Merthyr.

Awdur

Edgar William Jones, (1868 - 1953)

Ffynonellau

Who was who?

gwybodaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8008479

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Gfrannu](#)

Arddull APA

x

Jones, E. W., (1953). EDWARDS, WILLIAM (1851 - 1940), arolygwr ysgolion Ei Fawrhydi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-WIL-1851>

[Cofrestru](#)

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government